

## Ymateb y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rheoleiddwyr Gofal Iechyd)

### Amdanom ni

- 1 Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol mwy na 700,000 o weithwyr proffesiynol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae er mwyn gwireddu hyn.
- 2 Ein rôl graidd yw rheoleiddio. Yn y lle cyntaf, mae hyn yn golygu pennu'r safonau y mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol eu cyrraedd ar gyfer ymarfer. Mae'r safonau hynny yn gymwys ni waeth ble mae pobl yn gweithio – mewn ysbyty, ym maes gofal cymdeithasol, yn y gymuned, ym maes iechyd y cyhoedd, neu ym myd addysg. Mae'n flaenoriaeth i ni arloesi o ran y ffordd rydym yn llunio'r safonau hyn, er mwyn sicrhau bod ein proffesiynau yn dal i fyny â'r sector iechyd a gofal sy'n datblygu'n gyflym.
- 3 Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Mae ein proses ail-ddilysu yn ein helpu i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u profiad, er mwyn cynnal safonau ymarfer rhagorol drwy gydol eu gyrfaeod. Mae'r egwyddor hon o ddysgu gydol oes yn rhan bwysig o'n dull o reoleiddio.
- 4 Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd neu gymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr bob blwyddyn. Rydym yn penderfynu a yw eu sgiliau, eu gwybodaeth, eu haddysg neu eu hymddygiad yn gostwng islaw'r safonau sy'n ofynnol i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig. Rydym yn credu mewn rhoi'r cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fydd angen. Gall hyn gynnwys tynnu enwau pobl oddi ar ein cofrestr yn yr achosion mwyaf difrifol.
- 5 Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaeod pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth ymarfer a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein gweladwyedd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac wedi'u grymuso i lywio ein gwaith.
- 6 Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn caniatáu i ni **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu cudd-wybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ledled y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i siarad am amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

- 7 Ym mis Mawrth 2020, roedd 36,763 o nyrsys a bydwagedd ar gofrestr yr NMC oedd â chyfeiriad yng Nghymru. Mae hyn yn gynydd o 762 o nyrsys a bydwagedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cofrestryddion sydd â chyfeiriad yng Nghymru yn cyfrif am tua 5% o gyfanswm y bobl ar ein cofrestr.
- 8 Nid oes gennym unrhyw safleoedd yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cynnal gwrandawiadau yng Nghymru.

## Crynodeb

- 9 Rydym yn croesawu'r ymgynghoriad hwn gan Lywodraeth Cymru. Yn ein [hymateb](#) i'r cynigion ar gyfer y Gymraeg yn 2016 gwnaethom gadarnhau ein cefnogaeth o ddyhead Llywodraeth Cymru i feithrin a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru. Gwnaethom nodi hefyd ein bod yn hapus i weithio i gyflawni'r nod hwn, a'n bod am sicrhau bod holl wasanaethau perthnasol yr NMC ar gael i bob rhan o'r gymuned, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg. Dyma yw ein safbwynt o hyd ac mae'n cadarnhau ein gwerthoedd sefydliadol sylfaenol – ein bod yn deg, yn garedig ac yn gydweithredol.
- 10 Yn ein [hymateb](#) i 'Cymru Iachach: Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' y llynedd, gwnaethom hefyd ail-nodi ein hymrwymiad i'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, ac y dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd allu manteisio ar wasanaethau, neu godi unrhyw bryderon ynghylch eu gofal, yn eu dewis iaith.
- 11 Ar ôl ymgysylltu â'r rhannau perthnasol o'r NMC yn ogystal â'n rheoleiddwyr partner, rydym o'r farn ei bod yn debygol y gellir cyrraedd y safonau arfaethedig. Fodd bynnag, fel y gwnaethom nodi yn wreiddiol yn ein hymateb yn 2016, rydym yn dal i fod o'r farn bod angen eglurder ynghylch cwmpas a graddau'r safonau hyn, a'r modd y dylid eu cymhwyso. Heb yr eglurder hwn, bydd yn anodd i ni asesu'n gywir effaith y safonau a chynllunio i gydymffurfio â nhw. Rydym wedi nodi rhai o'r meysydd allweddol lle rydym o'r farn bod angen mwy o eglurder ar dudalen tri yr ymateb hwn.
- 12 Gan fod ein cylch gwaith rheoleiddiol yn cwmpasu'r DU gyfan, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried yr hyn y mae'r safonau hyn yn ei olygu mewn perthynas â'r modd gellir eu cymhwyso'n ymarferol gan sefydliadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru sy'n gweithredu'r un swyddogaethau ledled pedair gwlad y DU. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru yn fwy uniongyrchol er mwyn sicrhau'r eglurder hwn yn y dyfodol.
- 13 Cawn ein hariannu'n gyfan gwbl gan y ffioedd a delir i ni gan y rheini sydd ar ein cofrestr ac oherwydd hynny, gallai'r broses o roi safonau anghymesur ar waith arwain at gostau uwch iddynt. Rydym yn arbennig o ystyriol o hyn ar hyn o bryd lle mae'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn arwain y gwaith o fynd i'r afael â phandemig y Coronafeirws.
- 14 Mae ein strategaeth ariannol yn ein hymrwymo i gynnal y ffi gofrestru ar £120 gyhyd â phosibl a bydd yn rhaid i unrhyw oblygiadau o ran costau wrth gydymffurfio â'r safonau newydd gael eu talu o'n cyllideb bresennol. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi eisoes nad yw'n cefnogi unrhyw gynydd yn y baich o ran ffioedd sydd ar weithwyr iechyd proffesiynol a reoleiddir.

## Ein hymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad (atodiad un y ddogfen ymgynghori)

**Cwestiwn 1:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cyflenwi gwasanaethau a gynigir yn y rheoliadau?

- 15 Ein safbwynt cryno, yn seiliedig ar ein hasesiad effaith, yw y gallai'r safonau cyflenwi gwasanaethau arfaethedig gael effaith sylweddol ar ein prosesau a'n systemau. Rydym wedi amlinellu hyn ymhellach yn yr ymateb i gwestiwn pedwar yn atodiad B.
- 16 Byddem yn gwerthfawrogi cael eglurhad ar safon dau. Fel y mae wedi'i ysgrifennu ar hyn o bryd, ein dehongliad ni yw y byddai hyn yn gymwys pan fyddwn yn cyfathrebu'n benodol ag unigolion yng Nghymru, ac nid ar gyfer ein gohebiaeth ar gyfer y DU gyfan. Gall hefyd olygu y byddai oedi yn y broses o gyhoeddi unrhyw ohebiaeth wrth i'r dogfennau gael eu cyfieithu. Byddem yn croesawu cael eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar y pwyntiau hyn.
- 17 Yn ogystal â hyn, byddem yn gwerthfawrogi cael eglurhad ar b'un a yw'r safonau o ran cyfarfodydd cyhoeddus (safonau 8 i 9C) ond yn gymwys i gyfarfodydd a gynhelir ag unigolion yng Nghymru, neu a fwriedir iddynt gwmpasu ein prosesau ymgysylltu ledled y DU gyfan. Gan fod y safonau yn cyfeirio at 'unigolion' a 'phersonau', nid yw'n glir ym mha amgylchiadau y byddent yn gymwys. Byddem ni'n ffafrio i'r safonau fod yn gymwys i gyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru, fodd bynnag, byddwn yn gwneud ein gorau i gymhwyso dewisiadau o ran iaith a gohebiaeth beth bynnag lle y bo hynny'n bosibl y tu allan i Gymru.
- 18 Mae safon 23A yn gymwys lle mae nyrsys a bydwagedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol yn Lloegr. Hoffem dynnu sylw at y ffaith y gall achosion cyfreithiol hefyd gael eu cynnal yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym o'r farn y dylid aralleirio'r safon hon er mwyn sicrhau ei bod ond yn gymwys i achosion a gynhelir yng Nghymru.

**Cwestiwn 2:** Mae Rhan 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn cynnwys dehongliadau ar gyfer rhai o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Mae paragraffau 16-37 yn egluro sut mae rhai o'r safonau'n gweithio ac ym mha amgylchiadau y maent yn berthnasol. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dehongliad o'r safonau a nodwyd yn Rhan 3?

- 19 Fel rheoleiddiwr ledled pedair gwlad, ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw gylchlythyrau na mathau eraill o ohebiaeth sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer aelodau o'r cyhoedd na nyrsys a bydwagedd yng Nghymru. Hoffem ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar yr atodlen hon yn y dyfodol er mwyn cael eglurhad ynghylch pwy y byddai'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn gymwys iddynt, ac ym mhaa sefyllfaoedd y byddai hynny'n codi.
- 20 I ddefnyddio un enghraifft, yn Rhan 3, fel y nodir uchod, mae'r atodlen yn nodi "*Nid yw'r safonau ond yn gymwys i'r graddau y mae corff— (a) yn cyflenwi gwasanaethau i berson, neu (b) yn delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau— (i) i'r person arall hwnnw, neu (ii) i drydydd person*" (paragraff 17).

- 21 Defnyddir 'personau' mewn dogfen ymgynghori, fodd bynnag ni chaiff ei ddiffinio yn y rheoliadau drafft, ond caiff 'unigolyn' ei ddiffinio fel *"person naturiol sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac yn gweithredu yn ei enw ei hun ond nid yw'n cynnwys un sydd wedi cofrestru sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel un sydd wedi cofrestru"* (paragraff 1).
- 22 Hoffem gael eglurhad pellach ar beth yw'r gwahaniaeth a'r bwriad ac ym mha sefyllfaoedd y byddai'r diffiniadau hyn yn gymwys.

**Cwestiwn 3:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau llunio polisi a gynigir yn y rheoliadau?

- 23 Rydym yn llwyr gefnogi'r egwyddor y dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd yng Nghymru allu defnyddio'r Gymraeg a chyfathrebu yn eu dewis iaith. Rydym wrthi'n ystyried yr effaith ar siaradwyr Cymraeg fel rhan o'n proses o ddatblygu polisi drwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n cynnwys adran sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg.
- 24 Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch y gofynion o ran llunio polisïau ar gyfer rheoleiddwyr yn y DU i asesu a chefnogi sut y gall mwy o bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a goblygiadau ymarferol y cyfryw ofynion.
- 25 Yn ein barn ni, mae cyflwyno safonau newydd gyda'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn wahanol iawn i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffatriol na'r Saesneg. Mae'n debygol y byddai hyn yn arwain at newidiadau sylweddol gan nad oes gennym bolisïau na phroses datblygu polisïau sy'n gymwys i Gymru yn benodol. Yn ogystal, gan fod ein swyddogaethau statudol ar gyfer y DU gyfan, nid ydym o'r farn y byddai'n gymesur i ni ddatblygu proses o'r fath. Byddai gwneud hynny yn golygu newid sylweddol i'r ffordd rydym yn mynd ati ar hyn o bryd i ystyried lleihau rhwystrau mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- 26 O ystyried hyn, byddem yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i gael eglurhad ar y materion hyn, yn enwedig ar y pwynt 'hyrwyddo'.

**Cwestiwn 4:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau gweithredu a gynigir yn y rheoliadau?

- 27 Rydym yn cefnogi'r dyhead i gynyddu'r ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r ffordd y mae'n effeithio ar rôl rheoleiddiwr proffesiynol ymysg ein cydweithwyr yn yr NMC. Er enghraifft, mae gennym fodiwl e-ddysgu iaith Gymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd i gydweithwyr yn yr NMC.

**Cwestiwn 5:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cadw cofnodion a'r safonau yn ymdrin â materion ategol a gynigir yn y rheoliadau?

- 28 Rydym wedi nodi dau faes lle byddem yn gwerthfawrogi cael eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru. Yn gyntaf, byddai'n fanteisiol cael gwell dealltwriaeth os mai bwriad y safonau hyn yw cyflwyno gofyniad ar reoleiddwyr proffesiynol i ddatblygu proses gwynion sy'n benodol ar gyfer safonau'r Gymraeg. Fel rheoleiddiwr, mae gennym broses wedi'i sefydlu eisoes ar gyfer cwynion proffesiynol a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y ffordd y gall y Safonau hyn gyd-fynd â'r strwythurau hyn sy'n bodoli eisoes (safon 49).

- 29 Yn ogystal, byddem yn croesawu'r cyfle i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddiffinio ym mha sefyllfaoedd y byddai Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn am ragor o wybodaeth gan reoleiddwyr proffesiynol mewn perthynas â chydymffurfiaeth, a sut brosesau fyddai'r rhain (safon 51).

**Cwestiwn 6:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol?

- 30 Rydyn yn llwyr gefnogi y dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd allu cael gafael ar wybodaeth a lleisio pryderon ynghylch eu gofal yn eu dewis iaith ac na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd o'r farn bod y safonau hyn yn fwy cymesur na'r safonau a gynigiwyd yn 2016, a'u bod yn fwy addas i reoleiddwyr mewn cylch gwaith ar draws y DU gyfan.
- 31 Drwy ein cynllun iaith Gymraeg presennol, rydym o'r farn ein bod eisoes yn cyflawni rhai o'r dyheadau a nodir yn safonau newydd y Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod effeithiau cadarnhaol yn gysylltiedig â chael cyfres gyfunol o safonau sy'n gymwys i bob rheoleiddiwr proffesiynol, fel gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg er enghraifft.
- 32 Fodd bynnag, fel y disgrifir uchod, mae gennym gwestiynau ynghylch y safonau llunio polisïau a'r safonau cyflenwi gwasanaethau. Er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl, byddem yn croesawu'r cyfle i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y safonau hyn yn gwasanaethu'r gymuned Gymraeg ei hiaith, ynghyd â bod yn gymesur gan ystyried ein rôl fel rheoleiddiwr ledled y pedair gwlad. Rydym wedi amlinellu hyn yn fanylach yn ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Cwestiwn 7:** Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 33 Byddem yn croesawu cael trafodaeth bellach â Llywodraeth Cymru ar y ffordd orau o gydbwysu ein cylch gwaith ledled y DU gyfan ynghyd â chynnig cyfleoedd cadarnhaol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ein barn ni, mae rhai gweithgareddau fel datblygu mwy o fodiwlau dysgu a gwella ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau iaith a gynigir gennym – yn gynigion cwbl resymol. Fodd bynnag, mae rhai o'n gweithgareddau craidd – fel ein gwaith datblygu polisïau a safonau – wedi'u dylanwadu'n gryf gan ein deddfwriaeth, ac mae angen i ni sicrhau nad ydym yn camu y tu hwnt i'n swyddogaeth statudol.
- 34 Fodd bynnag, rydym yn dal yn gwbl ymrwymedig i sicrhau y gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd barhau i gael gwybodaeth a lleisio pryderon yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

35 Mae'n werth nodi bod ein profiad o'n cynllun iaith Gymraeg presennol yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o bolisiâu iaith Gymraeg presennol a'r nifer sy'n manteisio arnynt yn isel iawn. O ystyried hyn, gallai fod yn fwy manteisiol i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall wella ymwybyddiaeth gyffredinol o wasanaethau sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu safonau ychwanegol.

**Cwestiwn 8:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

36 Nid oes gennym unrhyw faterion ychwanegol yr hoffem fynd i'r afael â nhw.

### Ein hymateb i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad sy'n gymwys i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (atodiad B y ddogfen ymgynghori)

**1. Oes yna fanteision i'r corff o gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a gynigir yn y ddogfen hon?**

Oes	x
Nac oes	

Os oes, beth yw'r manteision?

Math o fantais	Disgrifiad o fantais cydymffurfio â'r safonau arfaethedig
Mantais Economaidd	Dim mantais economaidd wedi'i nodi.
Mantais Gymdeithasol	Manteision posibl hyrwyddo'r Gymraeg a gallu pobl i'w defnyddio. Rydym yn rheoleiddiwr ledled y DU gyfan ac mae'n bwysig i ni sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion pobl o Gymru.
Mantais Amgylcheddol	Dim mantais amgylcheddol wedi'i nodi.
Mantais Ieithyddol	Oes, yn cynnwys bod siaradwyr Cymraeg yn parhau i allu cyfathrebu a chael gwybodaeth yn Gymraeg.
Arall – byddwch mor benodol â phosibl	Dim mantais arall wedi'i nodi.

**2. Beth yw cost flynyddol cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol?**

Cost
------

<p>Costau cydymffurfio â'r Cynllun Iaith (ni ddylid cynnwys costau staff)</p>	<p>Yn 2019/20 gwnaethom wario £15,000 ar wasanaethau cyfieithu er mwyn cyfieithu ein dogfennau i'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys dogfennau ymgynghori a'n hadroddiad blynyddol a chyfrifon.</p>
---	---

Rhagor o fanylion am sut y cyfrifwyd y gost:

Dim ond costau penodol gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu dogfennau i'r Gymraeg y mae'r rhain yn eu cwmpasu. Fel y nodwyd yn ein prif ymateb, mae'r galw am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn isel. Pe byddai'r galw'n cynyddu, byddai'r gost i ni hefyd yn cynyddu.

### 3. Costau Staffio

Nodwch y costau staffio sy'n gysylltiedig â chyflawni ymrwymiadau eich Cynllun Iaith cyfredol, ac unrhyw gostau staffio ychwanegol yn sgil gorfod cydymffurfio â'r safonau a nodir yn y Rheoliadau sy'n destun yr ymgynghoriad:

Caiff cyfieithiadau Cymraeg eu rheoli gan aelod o staff fel rhan o'i gyfrifoldebau ar hyn o bryd. Amcangyfrifir bod hyn yn cymryd pump y cant o'i amser, sy'n cyfateb i tua £5,000 mewn cyflogau ac argostau. Mae'r aelod hwn o staff yn gweithio gydag asiantaethau allanol i gyfieithu testun. Yn aml, bydd asiantaethau yn ei gwneud yn ofynnol i ni amserlennu gwaith ddiwrnodau neu hyd yn oed wythnosau ymlaen llaw. Nid yw hyn yn peri problem fel arfer wrth amserlennu'r broses o gyfieithu dogfennau corfforaethol a gynlluniwyd. Fodd bynnag, mae'n golygu ei bod yn anodd gohebu â rhywun yn Gymraeg yn ddi-oed, o gymharu â'r amser y byddai'n ei gymryd i ohebu â nhw yn Saesneg. Yn ôl safon arfaethedig 4, mae amgylchiadau lle mae'n rhaid i ni nodi na fydd gohebu â rhywun yn Gymraeg yn arwain at oedi. Byddem yn croesawu cael eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn y byddai hyn yn ei olygu yn ymarferol.

Mae hyn oherwydd, wrth ddarllen y safon hon yn llythrennol, gallai olygu y byddai angen i ni gyflogi o leiaf un ac o bosibl ddau gyfieithydd mewnol amser llawn, er mwyn sicrhau na fydd gohebu â rhywun yn Gymraeg yn arwain at oedi. Y rheswm y gall fod angen dau gyfieithydd mewnol yw er mwyn osgoi unrhyw oedi oherwydd gwylliau blynyddol neu absenoldebau eraill. Nid ydym yn gwybod beth yw cyfradd y farchnad ar gyfer cyflogi cyfieithydd Cymraeg amser llawn. Gan dybio y penodir ar gyfer y ddwy rôl hyn ar lefel swyddog fodd bynnag, rydym yn amcangyfrif y byddai'r gost hyd at £160,000 y flwyddyn mewn cyflogau a gorbenion.

Yn dibynnu ar gwmpas y safonau, fel y nodir uchod, nid ydym o'r farn ei bod yn gymesur i ni gyflogi cyfieithwyr Cymraeg ar gontract amser llawn. Rydym o'r farn y dylid ystyried y byddai'n gymesur cael contract gyda chwmmi cyfieithu. Fodd bynnag, rydym yn gwbl ymrwymedig i sicrhau y gall unigolion gael gafaél ar wybodaeth yn eu dewis iaith, ac rydym o'r farn ei bod yn rhesymol bod gennym broses a systemau ar waith i sicrhau y gellir cyfieithu gwybodaeth a gohebiaeth.

#### 4. Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gellir gweld y safonau cyflenwi gwasanaethau yn Atodlen 1 o'r rheoliadau drafft.

A yw'r dyletswyddau yn y safonau cyflenwi gwasanaethau drafft yn debygol o gael effaith ar eich adnoddau neu'r ffordd rydych chi'n defnyddio'r adnoddau hynny?

Ydynt	x	Rhagor o fanylion (er enghraifft, a oes safonau
Nac ydynt		
		Cost (i'r £'000 agosaf)
Cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau drafft		Amcangyfrifir bod costau sefydlu tua £200,000 i £500,000, ac amcangyfrifir bod costau blynyddol parhaus ar lefel debyg. Mae hyn yn golygu y gallai cyfanswm y costau i'w talu gan y bobl ar ein cofrestr dros y pum mlynedd gychwynnol fod rhwng tua £1 filiwn a £3 miliwn.

cyflenwi gwasanaethau penodol yn debygol o greu costau ychwanegol i'ch sefydliad, sut rydych wedi amcangyfrif y gost ychwanegol ac ym mha flwyddyn (blynyddoedd) ydych chi'n disgwyl i'r costau ddiwydd?

Mae ein costau a gyfrifwyd yn ymwneud yn bennaf â'n swyddogaethau o ran cofrestru ac addasrwydd i ymarfer, yn ogystal â'n swyddogaethau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliad.

#### **Effaith ar ein swyddogaethau o ran cofrestru ac addasrwydd i ymarfer**

##### Safonau sy'n ymwneud â gohebiaeth a anfonwyd gan gorff

O dan y safonau drafft, byddai'n ofynnol i ni ymateb i unigolion yn Gymraeg pan dderbynnir gohebiaeth yn Gymraeg. Rydym yn defnyddio cyflenwr Cymraeg y mae ei gyfradd yn dechrau o 8 ceiniog y gair ond byddai hefyd angen i ni gael dyfynbris ar gyfer pob cais ac felly gall y gost amrywio. Byddai 500 o eiriau yn costio tua £50. Rydym wedi tybio swm bach o geisiadau o'r fath ond gyda safonau newidiol, gallant gynyddu felly rydym wedi tybio ystod o £1,000 i £10,000 y flwyddyn.

##### Safonau sy'n ymwneud â galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd gan gorff

O dan y safonau drafft, byddai'n ofynnol i ni ymateb yn Gymraeg dros y ffôn os bydd rhywun yn gofyn am gael siarad yn Gymraeg (ar yr amod bod cydweithiwr sy'n gallu gwneud hynny ar gael).

Byddem hefyd yn barod i sicrhau bod ein systemau ffôn wedi'u hawtomeiddio yn cynnig opsiwn Cymraeg. Mae ein canolfan galwadau yn defnyddio system ymateb llais



rhyngweithiol ac rydym wedi amcangyfrif y byddai'n costio o tua £30,000 i newid y system gyda chostau ychwanegol i gwmpasu gwaith cynnal a chadw bob blwyddyn.

Mae dwy linell gymorth annibynnol ar gael i dystion ac unigolion sy'n lleisio pryderon, ac i nyrsys a bydwagedd sy'n rhan o achos addasrwydd i ymarfer. Caiff y ddau wasanaeth eu darparu'n annibynnol arnom ni. Nid ydym yn glir ynghylch a fydd safonau'r Gymraeg yn gymwys i elusennau annibynnol eraill ac felly byddem yn croesawu cael eglurhad ar y mater hwn. Nid ydym wedi cynnwys unrhyw gostau mewn perthynas â hyn.

#### Safonau yn ymwneud â chorff sy'n cynnal cyfarfodydd ac achosion cyfreithiol

Rydym o'r farn bod cysylltiad agos rhwng llawer o'r safonau yn ymwneud â chynnal cyfarfodydd ac achosion cyfreithiol, yn ymarferol, o ystyried bod y broses addasrwydd i ymarfer (sy'n achos cyfreithiol) yn cynnwys cyfarfodydd a gwrandawiadau preifat a chyhoeddus. Er mwyn osgoi dyblygu rydym wedi mynd i'r afael â nhw ar y cyd yma.

Byddai'n ofynnol i ni ofyn i unigolion a grwpiau ynghylch p'un a fyddent yn hoffi defnyddio'r Gymraeg a darparu gwasanaethau cyfieithu dilynol neu ar y cyd os gwneir cais amdanynt. Byddai hefyd yn ofynnol i ni nodi y gall cofrestreion gyflwyno ffurflenni a gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig yn Gymraeg.

Rydym yn amcangyfrif y byddai angen i ni ddiweddarar tua 100 o dempledi yn ymwneud â safonau sy'n effeithio ar gynnal cyfarfodydd ac achosion cyfreithiol am gost gychwynnol o tua £5,000 o leiaf.

Gallwn ddarparu gwasanaethau cyfieithu dilynol neu ar y cyd ar gais ac mae hyn costio tua £900 y diwrnod. Mae llawer o wrandawiadau yn para sawl diwrnod felly byddai hyn yn golygu cynnydd sylweddol yn y gost o gynnal gwrandawiad. Yn seiliedig ar gyfran fach o ddiwrnodau gwrandawiadau a gynhaliwyd yn flaenorol yng Nghymru, gallai hyn gostio rhwng £10,000 a £40,000 y flwyddyn.

O dan y safonau drafft, byddai'n ofynnol i ni lunio dogfennau yn Gymraeg os bydd testun y ddogfen neu'r gynulleidfa a ragwelir yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. Nid ydym yn glir ynghylch a fyddai hyn hefyd yn cynnwys penderfyniadau addasrwydd i ymarfer gan mai dim ond yn Saesneg rydym yn llunio'r rhain ar hyn o bryd. Yn seiliedig ar nifer yr achosion a gododd o Gymru y llynedd, rydym wedi amcangyfrif y byddai hyn yn costio o leiaf £55,000 y flwyddyn mewn ffioedd cyfieithu (cyfrifiad yn seiliedig ar amcangyfrif o 550 o benderfyniadau a 1,000 o eiriau fesul penderfyniad). Byddem yn croesawu cael eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru ar y pwynt hwn.

Byddem hefyd yn croesawu cael eglurhad pellach ynghylch a fyddai cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd yng Nghymru yn cynnwys gwrandawiadau ac felly a fyddai angen i ni anfon hysbysiadau yn Gymraeg at bawb – hyd yn oed os na wneir cais am hynny. Mae hyn oherwydd y byddai'n cael effaith sylweddol ar ein costau a nodwyd gennym isod.

#### Safonau yn ymwneud â chorff sy'n llunio ac yn cyhoeddi dogfennau a ffurflenni

O dan y safonau drafft, byddai'n ofynnol i ni lunio ffurflenni a dogfennau yn Gymraeg. Rydym wedi amcangyfrif bod tua 1,000 o dempledi a ffurflenni fel rhan o'n

swyddogaethau o ran cofrestru ac addasrwydd i ymarfer. Rydym wedi amcangyfrif y byddai hyn yn costio tua £50,000 os byddai pob dogfen yn cynnwys 500 o eiriau ar gyfartaledd.

Caiff templedi a ffurflenni eu hadolygu a'u diweddarau'n aml a byddai'n rhaid i ni dalu costau cynnal a chadw pellach o ganlyniad i hynny.

### Safonau yn ymwneud â gwasanaethau ar-lein

Llwyfan ar-lein yw NMC Online sydd ar gael i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y mae angen iddynt reoli eu cofrestriad. Rydym wedi amcangyfrif y byddai'n costio o leiaf £100,000 i sefydlu hyn er mwyn darparu fersiwn Gymraeg. Eto, byddai hyn yn arwain at gostau cynnal a chadw ychwanegol. Hoffem gael eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru os mai'r bwriad yw i hyn gael ei gwmpasu yn y safonau arfaethedig, yn benodol Safon 19 a 21.

Rydym yn deall na fydd y safon arfaethedig newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyfieithu ein gwefan gyfan. Felly, nid ydym wedi cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hyn. Fodd bynnag, pe byddai hyn yn newid yn y dyfodol, byddai'n arwain at oblygiadau sylweddol o ran adnoddau i ni. Fel rhan o'n hymateb blaenorol i'r ymgynghoriad yn 2016, gwnaethom egluro y byddai'n costio o leiaf £500,000 i gyfieithu ac ailffurfweddu ein gwefan gyfan (sy'n cynnwys mwy na 600 o dudalennau a 2000 o ddogfennau PDF). Rydym wrthi'n newid ein gwefan ac yn ychwanegu cynnwys newydd ati felly byddai hyn yn arwain at ragor o gostau cynnal a chadw.

### **Effaith ar ein swyddogaethau o ran cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Gallai'r gofyniad a amlinellir yn safon 4 'na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi' ei gwneud yn ofynnol i ni gyflogi hyd at ddau gyfieithydd mewnol efallai am gyfanswm cost o hyd at £160,000 er mwyn gwarantu cyhyd ag y bo'n rhesymol bosibl, y bydd gennym rywun ar gael i gyfieithu testun yn ddi-oed bob amser. Rydym wedi nodi hyn yn fanylach mewn ymateb i gwestiwn tri. Rydym hefyd o'r farn y byddai'r cyflogeion hyn yn ofynnol er mwyn i ni gydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn safon 5.

Byddem hefyd yn gofyn am gael eglurhad pellach ar safon 2. Fel y mae wedi'i geirio, mae'n ymddangos ei bod yn awgrymu bod yn rhaid i bob deunydd ysgrifenedig a anfonir at sawl person gael ei ysgrifennu yn Gymraeg, ni waeth pwy yw'r derbynnywyr na beth yw'r testun. Mewn egwyddor, gallai hyn olygu cyfieithu cannoedd ar filoedd yn fwy o eiriau bob blwyddyn. Nid ydym wedi cynnwys amcangyfrif. Gall hefyd olygu y byddai oedi yn y broses o gyhoeddi unrhyw ddogfennau neu hysbysiadau brys wrth i'r dogfennau gael eu cyfieithu.

## **5. Safonau llunio polisi**

Gellir gweld y safonau llunio polisi yn Atodlen 2 i'r rheoliadau drafft.

**A yw'r dyletswyddau yn y safonau llunio polisi yn debygol o gael effaith ar eich adnoddau neu'r ffordd rydych chi'n defnyddio'r adnoddau hynny?**

Ydynt	O bosibl
Nac ydynt	

	Cost (i'r £'000 agosaf)
Cydymffurfio â'r safonau llunio polisi drafft	Rydym yn ceisio cael eglurhad pellach ar y safonau llunio polisi, fel yr amlinellir yn ein hymateb i gwestiwn tri yn atodiad A. Hyd nes y ceir eglurhad pellach, ni allwn amcangyfrif beth fyddai'r gost i gydymffurfio â safonau llunio polisi drafft.

### Rhagor o fanylion

Fel yr amlinellir yn yr ymateb i gwestiwn tri yn atodiad A, mae cyflwyno safonau newydd gyda'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn wahanol iawn i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n debygol y byddai hyn yn arwain at newidiadau sylweddol gan nad oes gennym bolisiâu na phroses datblygu polisiâu sy'n gymwys i Gymru yn benodol. Yn ogystal, gan fod ein swyddogaethau statudol ar gyfer y DU gyfan, nid ydym o'r farn y byddai'n gymesur i ni ddatblygu proses o'r fath. Byddai gwneud hynny yn golygu newid sylweddol i'r ffordd rydym yn mynd ati ar hyn o bryd i ystyried lleihau rhwystrau mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

### 6. Safonau gweithredu

Gellir gweld y safonau gweithredu yn Atodlen 3 i'r rheoliadau drafft.

**A yw'r dyletswyddau yn y safonau gweithredu yn debygol o gael effaith ar eich adnoddau neu'r ffordd rydych chi'n defnyddio'r adnoddau hynny?**

Ydynt	x
Nac ydynt	

	Cost (i'r £'000 agosaf)
Cydymffurfio â'r safonau gweithredu	£3,000

### Rhagor o fanylion

Rydym yn hyderus y gellir addasu ein modiwlau hyfforddi ar-lein mewnol er mwyn ystyried safon 43. Byddai modiwl 30 munud o hyd yn costio tua £1,500 i'w ddatblygu, ynghyd ag unrhyw gostau yn y dyfodol pe byddai angen diweddarau hyn. Yn ogystal â

hyn, byddai'n rhaid i ni gyflogi cwmni graffeg i ddatblygu model a fyddai'n costio £650 y diwrnod. Os byddwn yn amcangyfrif y byddai'n cymryd diwrnod i ddatblygu'r gost ar gyfer datblygu'r model, cyfanswm y gost fyddai £2,150.

Mewn perthynas â safon 45A, byddai hyn yn cynnwys cyfieithu swyddi gwag perthnasol i'r Gymraeg. Rydym yn amcangyfrif y gall fod angen dau aelod ychwanegol o staff arnom sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg i gefnogi'r gwaith o gyfieithu gohebiaeth (gweler adran 3: Costau Staffio). Rydym yn amcangyfrif y byddai'n costio tua £600 i gyfieithu'r ddau hysbyseb hyn.

## 7. Safonau cadw cofnodion a safonau ymdrin â materion ategol

Gellir gweld y safonau cadw cofnodion yn Atodlen 4 o'r rheoliadau drafft a'r safonau ymdrin â materion ategol yn Atodlen 5.

**A yw'r dyletswyddau yn y safonau cadw cofnodion a'r safon yn ymdrin â materion ategol yn debygol o gael effaith ar eich adnoddau neu'r ffordd rydych chi'n defnyddio'r adnoddau hynny?**

Ydynt	x
Nac ydynt	

	Cost (i'r £'000 agosaf)
Cydymffurfio â'r safonau cadw cofnodion a'r safonau ymdrin â materion ategol	Rydym o'r farn y gellir bodloni'r gofynion hyn o fewn y strwythurau a'r gyllideb bresennol. Byddai cost fach ar gyfer cyfieithu dogfennau sy'n ymwneud â'r weithdrefn gwyno ac rydym yn amcangyfrif y byddai hyn yn tua £200.

## Rhagor o fanylion

Byddem yn croesawu cael eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch p'un a fyddai disgwyl i reoleiddwyr proffesiynol gael proses gwynion mewn perthynas â safonau'r Gymraeg sydd ar wahân i'w prif system ar gyfer cwynion corfforaethol. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a ellid alinio'r rhain. Byddem hefyd yn croesawu cael eglurhad ynghylch pa amodau fyddai'n arwain Comisiynydd y Gymraeg i ofyn am wybodaeth ychwanegol ynghylch cydymffurfiaeth, oherwydd gallai hyn hefyd effeithio ar gostau cydymffurfio â'r Safonau.